



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Ms Jan Williams
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Ysbyty'r Eglwys Newydd
Park Road
Caerdydd
CF14 7XB

Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL
08442 640670
gofyn@olderpeoplewales.com

12 Medi 2011

Annwyl Ms Williams,

Adolygiad Ysbytai Gofal gydag Urddas: adborth a Hysbysiad
Atodol yn gofyn am ragor o wybodaeth erbyn 30 Medi 2011

Hoffwn ddiolch i chi am ymateb yn brydlon i'm cais am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'm Hadolygiad 'Gofal gydag Urddas? Profiadau pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru'. Rwy'n gwerthfawrogi'r amser a'r ymdrech a roddwyd i ymateb i'm cais. Mae'r ymatebion sydd wedi dod i law yn dangos lefel uchel o ymrwymiad i bobl hŷn yng Nghymru. Os bydd y Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn cymryd y camau y maen nhw wedi dweud y byddan nhw'n eu cymryd, dylid gweld gwelliant arwyddocaol ym mhrofiadau pobl hŷn yn yr ysbyty yng Nghymru.

Fel y gwyddoch, gofynnais i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ymateb i'r argymhellion, gan amlinellu sut y bydden nhw'n cydymffurfio â nhw. Os byddai'r Bwrdd Iechyd yn penderfynu peidio â chymryd camau mewn ymateb i'r argymhellion, roeddwn yn gofyn am esboniad dros

beidio â chymryd camau. Daeth ymateb cyntaf y Bwrdd Iechyd i law ar 15 Mehefin 2011. Ar ôl asesu'r ymateb hwnnw, anfonais Hysbysiad Ysgrifenedig yn gofyn am ragor o wybodaeth i'm darbwyllo y byddai buddiannau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hybu yn ysbytai Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae fy nhîm a mi wedi asesu'r ail ymateb yn drylwyr. Rydyn ni wedi cael cymorth gan banel o gynghorwyr y mae eu henwau wedi'u rhestru ar ein gwefan. Rwy'n fodlon ar ail ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i Argymhelliad 3 (anghenion ymataliaeth). Ymdriniodd yr ail ymateb â'r materion hyn yn fanylach a rhoi sylw mwy uniongyrchol i'r pwyntiau a godwyd yn fy hargymhellion i.

Nid yw'r ail ymateb i Argymhellion 4 (gwybodaeth bersonol cleifion), 8 (amgylchedd y ward) a 12 (gwybodaeth a sgiliau) yn fy narbwyllo y bydd buddiannau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hybu yn ysbytai Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro o ran y materion hyn.

Mae'r ail ymateb i Argymhelliad 4 yn gweld cysylltiad cryf rhwng diogelu gwybodaeth bersonol cleifion yn well a'r rhaglen adnewyddu sydd ar waith. Mae'n galonogol gwybod y bydd y Cyfarwyddwr Meddygol yn arwain adolygiad o'r arferion ar ymweliadau â wardiau yn ystod y flwyddyn sy'n dod ond does dim mis penodol wedi'i nodi ar gyfer cwblhau'r adolygiad hwn yn 2012. Yn ôl yr ymateb 'hyd nes i'r rhaglen adnewyddu gael ei gorffen, atgoffir yr holl staff am eu cyfrifoldebau i gadw cyfrinachedd cleifion bob amser'. Nid yw'r ymateb fel petai'n cydnabod bod gan gleifion hawl i breifatrwydd gwybodaeth; i'r claf y mae unrhyw wybodaeth bersonol yn perthyn a dylid gwneud pob ymdrech i'w chadw'n gyfrinachol. Nid yw'r ymateb yn chwilio y tu hwnt i'r ateb amlwg o symud y claf i gyfleusterau ward preifat ac mae'n brin o ran syniadau creadigol i fynd i'r afael â sefyllfaoedd ymestynnol. Er enghraifft, os nad oes modd symud claf i ystafell breifat, a allai lle preifat gael ei greu o amgylch y claf? Mae'n bwysig mai hawliau'r claf sy'n ganolog.

Roedd yr ail ymateb i Argymhelliad 8 o gymorth ond, unwaith eto, does dim mis penodol yn 2012 wedi'i bennu ar gyfer gorffen yr ymarfer cwmpasu. Yn yr un modd, nid yw'r ail ymateb i Argymhelliad 12 yn rhoi

mis ar gyfer gorffen yr ymarfer mapio a'r adolygiad o'r amserlen hyfforddi gorfodol.

Byddwch cystal â rhoi rhagor o wybodaeth imi i fynd i'r afael â'r materion ynglŷn ag amserlenni a hawl y claf i breifatrwydd gwybodaeth bersonol. Byddwn o'r farn bod dyddiad gorffen ym mis Rhagfyr 2012 i'r holl bwytiau gweithredu uchod yn ymateb rhy araf i'm hargymhellion.


Yn unol â Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2007, rheoliad 15(6), mae'r llythyr hwn yn Hysbysiad Atodol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ofyn am ragor o wybodaeth mewn perthynas ag Argymhellion 4, 8 a 12. Byddwch cystal â rhoi'r wybodaeth hon erbyn **dydd Gwener 30 Medi am 12 canol dydd fan bellaf.**

Mae'n ofynnol imi gadw cofrestr, sydd ar gael i'r cyhoedd, yn cynnwys manylion yr argymhellion a chanlyniad unrhyw gamau pellach yr ydw i wedi'u cymryd, megis rhoi Hysbysiad Atodol i Fwrdd Iechyd penodol. Bydd y gofrestr ar ein gwefan ynghyd â phob ymateb a anfonwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r llythyr hwn. Bydd y gofrestr ar gael ar bapur hefyd os gwneir cais amdano.

Pan fyddaf yn fodlon bod gen i'r cyfan o'r wybodaeth angenrheidiol, bydd fy nhîm a mi'n gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod yr argymhellion yn dod yn realiti ymarferol sydd o les i bobl hŷn yng Nghymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y llythyr hwn yr hoffech eu trafod, cysylltwch ag Anna Buchanan ar 02920 445034 neu anna.buchanan@olderpeoplewales.com.

Yn gywir,



Ruth Marks
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru